OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2540 (Cy.204) (C.106)

CYFRAITH TROSEDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 15 Medi 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 53(6) o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Cychwyn

2. Mae darpariaethau canlynol Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru, yn dod i rym ar 1 Hydref 2009—

(a) adran 19 (craffu gan awdurdod lleol ar faterion trosedd ac anhrefn);

(b) adran 20 (canllawiau a rheoliadau mewn perthynas â materion trosedd ac anhrefn); ac

(c) Atodlen 8 (darpariaeth bellach ynghylch pwyllgorau trosedd ac anhrefn awdurdodau lleol penodol).

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

15 Medi 2009

(**1**) 2006 p.48.
(**2**) Mae pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 53(6) bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 1 Hydref 2009, i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru, adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ("Deddf 2006") sy'n ymwneud â sefydlu pwyllgorau trosedd ac anhrefn awdurdodau lleol, ac Atodlen 8 i Ddeddf 2006 sy'n gosod darpariaethau pellach ynghylch pwyllgorau trosedd ac anhrefn awdurdodau lleol penodol.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 wedi eu dwyn i rym yng Nghymru drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Y ddarpariaeth	*Dyddiad cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 1 (yn rhannol)	1 Ebrill 2007	2007/709
Adran 2 (yn rhannol)	15 Ionawr 2007	2006/3364
	1 Ebrill 2007	2007/709
	29 Mehefin 2007	2007/1614
	14 Mawrth 2008	2008/311
	1 Ebrill 2008	2008/790
Adran 3	29 Mehefin 2007	2007/1614
Adran 4	31 Mawrth 2007	2007/709
Adran 5	31 Rhagfyr 2007	2007/3203
Adran 6	1 Ebrill 2007	2007/709
Adran 7	1 Ebrill 2007	2007/709
	1 Rhagfyr 2007	2007/3203
Adran 8	1 Ebrill 2007	2007/709
Adran 9 (yn rhannol)	1 Ebrill 2007	2007/709
	1 Rhagfyr 2007	2007/3203
Adran 10	1 Ebrill 2007	2007/709
Adran 11	15 Ionawr 2007	2006/3364
Adran 12	1 Ebrill 2007	2007/709
Adran 13	29 Mehefin 2007	2007/1614
Adrannau 15 ac 16	1 Ebrill 2007	2007/709
Adran 18	29 Mehefin 2007	2007/1614